# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Cynghorau Tref a Chymuned

Nid oes gan bob rhan o Gymru gyngor tref neu gymuned - mae'r 735 o gynghorau yn gwasanaethu oddeutu 94 y cant o arwynebedd y wlad a 70 y cant o'r boblogaeth, ond nid yw'n anodd sefydlu cyngor yn eich ardal os nad oes gennych chi un eisoes.



Llun: Glan-y-môr Llandudno yng Ngogledd Cymru

Gelwyd cynghorau cymuned yn gynghorau plwyf yng Nghymru tan 1974, ond newidiwyd yr enw yng Nghymru fel rhan o'r newidiadau a gyflwynwyd gan **Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**.

Mae cynghorau plwyf yn parhau i fodoli yn Lloegr, ac mae gan y cynghorau plwyf a'r cynghorau cymuned yr un pwerau. Bydd pennu pa un a fydd gennych chi gyngor tref neu gymuned yn dibynnu'n fawr ar faint y boblogaeth – po fwyaf yw'r gymuned, mwya'n byd yw'r tebygrwydd y bydd yn cael ei alw'n gyngor tref.

Hon yw'r haen o'r llywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Mae llawer o gynghorwyr tref neu gymuned yn cynrychioli'r holl ardal gymunedol y mae'r cyngor yn ei wasanaethu, felly bydd eich holl gynghorwyr tref neu gymuned yn eich cynrychioli. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn cael eu rhannu'n wardiau cymunedol llai o faint, a dim ond rhai o'r cynghorwyr fydd yn cynrychioli'r ardal lai honno.

**Gwybodaeth**

Mae 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru, gydag oddeutu 8,000 o gynghorwyr yn cynrychioli buddiannau'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mae gan gynghorau tref a chymuned bwerau dros faterion lleol iawn, gan gynnwys:

- Darparu a chynnal a chadw cynlluniau cludiant cymunedol
- Mesurau gostegu traffig
- Prosiectau ieuenctid lleol
- Meysydd parcio
- Lonydd pentref
- Cyfleusterau hamdden
- Toiledau cyhoeddus
- Biniau sbwriel
- Glanhau strydoedd
- Rhandiroedd
- Mannau agored
- Arosfannau bysiau
- Mynwentydd
- Llwybrau

Mae cynlluniau hefyd ar waith i gryfhau rôl cynghorau tref a chymuned drwy ehangu'r pŵer i hybu lles eu cymunedau iddyn nhw yn ogystal ag awdurdodau unedol. Maen nhw hefyd yn ymgyngoreion statudol ar geisiadau cynllunio yn eu hardaloedd.

Mae gan gynghorau tref a chymuned yr hawl i godi arian ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu drwy drethiant lleol. Caiff ardoll fechan, a elwir yn 'praesept' ei ychwanegu at y dreth gyngor a'i gasglu ohono. Mae edrych ar fil eich treth gyngor yn un ffordd o ddarganfod a yw cyngor tref neu gymuned yn gwasanaethu eich ardal, oherwydd bydd y praesept wedi'i eitemeiddio ar eich bil. Ffordd arall fyddai i gysylltu â'ch cyngor lleol a fydd yn gwybod popeth am y cynghorau tref a chymuned yn ei ardal.

**Dolen Allanol**

Gallech hefyd fynd i wefan Un Llais Cymru - nhw yw'r mudiad sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ac yn darparu gwasanaethau cymorth iddynt. Mae gan eu gwefan lwyth o wybodaeth ddefnyddiol am ardaloedd daearyddol cynghorau yng Nghymru, yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn y maen nhw'n ei wneud a sut i sefydlu cyngor yn eich ardal os nad oes un yn bodoli eisoes.

Un Llais Cymru

## Gwybodaeth bellach

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**Ffôn: 0800 2888 329**
www.wcva.cymru

**Un Llais Cymru**
**Ffôn: 01269 595400**
http://www.unllaiscymru.org.uk

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.